Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynllunio a Seilwaith

Mai 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ac fe gafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 11 Mawrth 2025. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn datgan:

> *"The Planning and Infrastructure Bill ("the Bill") will speed up and streamline the delivery of new homes and critical infrastructure, supporting delivery of the government's Plan for Change milestones of building 1.5 million safe and decent homes in England and fast-tracking 150 planning decisions on major economic infrastructure projects by the end of this Parliament. It will also support delivery of the government's Clean Power 2030 target by ensuring that clean energy projects are built as quickly as possible."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan mai dyma ddiben y Bil:

> *"Make provision about infrastructure; to make provision about town and country planning; to make provision for a scheme, administered by Natural England, for a nature restoration levy payable by developers; to make provision about development corporations; to make provision about the compulsory purchase of land; to make provision about environmental outcomes reports; and for connected purposes."*[3]

**4.** Dechreuodd y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Ebrill 2025. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd disgwyl i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus adrodd i'r Tŷ erbyn dydd Iau 22 Mai 2025.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid cael memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru mewn perthynas â materion datganoledig.

**6.** Ar 26 Mawrth 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Ysgrifennydd y Cabinet), Femorandwm

[1] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd
[2] Nodiadau Esboniadol i'r Bil, fel y'i cyflwynwyd
[3] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd

Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil (y Memorandwm) gerbron y Senedd.[4]

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 6 Mehefin 2025.[5]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**8.** Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer:

- Rhan 1 Seilwaith:
  - Cymal 4(3) i (5) (Ceisiadau am ganiatâd datblygu: ymgynghoriad);
  - Cymal 24 (Defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy);
  - Cymal 25 (Ffioedd am wasanaethau penodol);
  - Cymal 28 (Gweithdrefn ar gyfer gorchmynion a chynlluniau penodol);
  - Cymal 29 (Pwerau prynu gorfodol gan gynnwys cymryd meddiant dros dro);
  - Cymal 30 (Darparu canllaw yn lle cymalau enghreifftiol);
  - Cymal 31 (Dileu'r weithdrefn arbennig ar gyfer prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol);
  - Cymal 32 (Dyletswydd i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad);
  - Cymal 33 (Costau ymchwiliadau);
  - Cymal 34 (Dyddiadau cau ar gyfer penderfyniadau);
  - Cymal 35 (Cyhoeddi penderfyniadau ac amser ar gyfer herio);
  - Cymal 36 (Ffioedd am wasanaethau penodol);

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, 26 Mawrth 2025
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Ebrill 2025

- Cymal 37 (Datgymhwyso cyfundrefnau treftadaeth);
- Cymal 38 (Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol);
- Cymal 41 (Y pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol);
- Cymal 42 (Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr).

▪ Rhan 5 Prynu Gorfodol:

- Cymal 83 (Gwasanaeth electronig ac ati);
- Cymal 84 (Cynnwys gofynnol mewn hysbysiadau papur newydd);
- Cymal 85 (Cadarnhau trwy orchymyn gan awdurdod caffael gyda newidiadau);
- Cymal 86 (Datganiadau breinio cyffredinol: gweithdrefn gyflym);
- Cymal 87 (Datganiad breinio cyffredinol: cyflymu breinio trwy gytundeb);
- Cymal 89 (Taliadau am golli cartref: eithriadau);
- Cymal 90 (Meddiant dros dro ar dir mewn cysylltiad â phrynu gorfodol);
- Cymal 91 (Diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 14A o Ddeddf Digolllediad Tir 1961);
- Cymal 92 (Pwerau newydd i benodi arolygydd).

**9.** O ran barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud yn y Memorandwm:

> *"Mae Matthew Pennycook AS, Gweinidog Tai a Chynllunio'r DU, wedi ysgrifennu ataf i ddweud, ym marn Llywodraeth y DU, bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau canlynol:*
>
> *· Rhan 1 – Cymalau 24, 25, 29, 30 i 39, 41 a 42.*
>
> *· Rhan 5 - Cymalau 83 i 87 ac 89 i 92*
>
> *Ym marn Llywodraeth y DU nid oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau canlynol:*

*• Rhan 1 – Cymalau 1 i 8 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag NSIPs a chymalau 9 i 23 gan eu bod yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl mewn perthynas ag NSIP a thrydan.*

*• Rhan 1 - Cymalau 26 i 28 gan nad ydynt yn berthnasol ar lefel ymarferol yng Nghymru ac eithrio'r achosion prin iawn lle mae priffyrdd yn gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol.*

*• Rhan 1 – Cymal 40 gan ei fod yn berthnasol i'r Alban yn unig.*

*• Rhan 1 – Cymal 43 gan ei fod yn berthnasol i Loegr yn unig.*

*• Rhan 2 – Cymalau 44 i 47 gan eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig.*

*• Rhannau 3 a 4 – Cymalau 48 i 82 gan eu bod yn berthnasol i Loegr yn unig.*

*• Rhan 6 – Cymal 93 gan fod y ddarpariaeth ond yn newid maint y pŵer presennol y gall Cymru ei arfer mewn rhai amgylchiadau ond nid yw'n gyfystyr â newid cymhwysedd gweithredol.”*[6]

**10.** Dywed Ysgrifennydd y Cabinet, er ei bod yn cytuno i raddau helaeth â dadansoddiad Llywodraeth y DU o ddatganoli, "mae gwahaniaeth rhwng fy marn i, a barn Llywodraeth y DU ar yr angen am ganiatâd y Senedd ar nifer fach o ddarpariaethau yn y Bil.” Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i ddatgan:

*"Rwy'n credu bod cymal 4(3) i (5) (Ceisiadau am ganiatâd datblygu: ymgynghoriad) yn gofyn hefyd am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Hynny am ei fod yn cael effaith ar swyddogaethau Awdurdodau datganoledig Cymru ac felly yn ymdrin â mater datganoledig. Am y rheswm hwnnw mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cwmpasu'r cymal hwn. Rwyf hefyd wedi cynnwys cymal 28 yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn nes bod trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar gymhwyso'r cymal i Loegr yn unig wedi dod i ben. Rwyf wedi ysgrifennu at Matthew Pennycook AS ar y materion hyn.”*[7]

**11.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ychwanegu ei bod yn anghytuno â barn Llywodraeth y DU y byddai angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 39 o'r Bil. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud: "Mae’r ddarpariaeth yn ymwneud â

[6] Y Memorandwm, paragraffau 57 a 58
[7] Y Memorandwm, paragraff 59

Lloegr yn unig ac ni fydd yn effeithio ar Gymru, felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr LCM."[8]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**12.** Ym mharagraff 61 o'r Memorandwm mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud: "Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a allai fod o fudd i bobl Cymru."

**13.** Mewn perthynas â'r darpariaethau yng nghymal 4(3) i (5) o'r Bil, sy'n ymwneud â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs), mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn y Memorandwm:

- Bydd y newidiadau "yn golygu y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodedig gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru, roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ymateb i ymgynghoriadau neu wrth wneud sylwadau am gais am orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu o dan Ddeddf 2008."[9]
- "Mae cyrff Cymru eisoes yn cymryd rhan ym mhroses NSIP Llywodraeth y DU, ac mae'r cymalau hyn yn debyg i'r rheini a geir yn y system Gymreig."[10]
- Bydd y darpariaethau hyn "yn helpu i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu ac yn rhoi cyngor arbenigol ystyrlon ac amserol. Bydd hyn yn helpu i lywio datblygiad ac yn cyflymu penderfyniadau, gan roi sicrwydd ynghylch datblygiadau mawr sy'n effeithio ar Gymru."[11]

**14.** Mewn perthynas â chymal 24 o'r Bil (defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy), mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn y Memorandwm:

- "Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) eisoes yn cael gwerthu rhannau o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru at ddibenion ynni adnewyddadwy (e.e. i adeiladu ffermydd gwynt). Mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud hyn, o dan gytundeb adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw CNC yn cael datblygu ei brosiectau ynni adnewyddadwy ei hun ar ystâd goetir Llywodraeth

[8] Y Memorandwm, paragraff 60
[9] Y Memorandwm, paragraff 11
[10] Y Memorandwm, paragraff 63
[11] Y Memorandwm, paragraff 63

Cymru. Mae'r drafft diweddaraf o gymal 24 yn darparu bod CNC yn cael defnyddio ei bwerau newydd o dan gymal 24 i gael arian ar gyfer ei weithgareddau."[12]

- "Mae'r cymal yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu na chaiff CNC arfer ei bwerau o dan y cymal hwn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y broses ceisio a rhoi cydsyniad a darparu bod cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau. Byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud dan y weithdrefn negyddol.[13]

- "Er fy mod yn gefnogol i'r ddarpariaeth sy'n rhoi pwerau i CNC, mae angen rhagor o drafod â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn."[14]

**15.** Mewn perthynas â chymalau 25, 28 a 29, sy'n gwneud diwygiadau i *Ddeddf Priffyrdd 1980* (Deddf 1980), yn y Memorandwm mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi:

- Mae mewnosod adran newydd yn Neddf 1980, trwy gymal 25 y Bil, a fydd yn dilyn yr adran 281A bresennol yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru (o dan y weithdrefn negyddol) i enwi'r cyrff cyhoeddus sy'n cael codi tâl am eu gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â gorchmynion a chynlluniau a wneir mewn perthynas â phrosiectau ffyrdd o dan Ddeddf 1980.[15]

- Bydd y diwygiadau i Ddeddf 1980 a wneir gan gymal 28 yn galluogi dull cyson o ymdrin â gwahanol orchmynion Deddf 1980 yn Lloegr, ac mae'r cymal "trwy amryfusedd yn cyfeirio at Gymru ac rydym wrthi'n trafod â swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfeirio at Loegr yn unig". Mae hyn ar y sail, unwaith y bydd diwygiadau wedi'u gwneud i Ddeddf 1980 gan y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru), "dylai hynny fod yn glir. Fodd bynnag, rydym wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU i weld a ellir gwella geiriad y cymal hwn, neu ei esbonio, i'w gwneud yn glir ei fod ond yn berthnasol i Loegr".[16]

[12] Y Memorandwm, paragraff 64
[13] Y Memorandwm, paragraff 15
[14] Y Memorandwm, paragraff 64
[15] Y Memorandwm, paragraff 18
[16] Y Memorandwm, paragraffau 19 a 66

- Mae cymal 29 yn diwygio adran 250(8) o Ddeddf 1980 ac "yn cyflwyno pwerau i ddefnyddio tir dros dro (er enghraifft at ddibenion adeiladu) gan ymdrin mewn ffordd fwy cymesur â chael mynd ar dir gan arwain at drefn fwy rhesymol ac effeithlon ynghyd â sicrhau mwy o werth i hyrwyddwr y cynllun".[17]

**16.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod cymalau 25 a 29 yn cael eu hystyried "yn fuddiol o ran cydsynio prosiectau nad ydynt yn dod o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024".[18]

**17.** Mewn perthynas â chymalau 30 i 38 a 41, sy'n gwneud diwygiadau i *Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992* (TWA1992) mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn y Memorandwm bod y cymalau hyn "yn cyd-fynd â naratif a fframwaith cyfreithiol Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 i sicrhau bod y broses gydsynio ar gyfer Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 mor effeithiol â phosibl"[19]. Mae'r cymalau hyn, ymhlith pethau eraill, yn darparu'r canlynol i Weinidogion Cymru:

- pŵer i gyhoeddi canllawiau yn ymwneud â pharatoi Gorchmynion TWA1992 drafft (cymal 30);
- pŵer i wneud cyfarwyddiadau yn ymwneud â chostau ymchwiliadau (cymal 33);
- rôl gydsynio pe bai rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod rheolau yn ymwneud â dyddiadau cau ar gyfer penderfyniadau a bod y rheolau hyn yn gymwys o ran Cymru (cymal 34);
- pŵer gwneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, i enwi cyrff cyhoeddus y caniateir iddynt godi tâl am y gwasanaethau a ddarperir i gynlluniau o fewn proses ymgeisio TWA (cymal 36).

**18.** Hefyd, mae cymal 41 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a all ddiwygio Deddf gan Senedd y DU neu Ddeddf neu Fesur gan Senedd Cymru. Gall rheoliadau o'r fath wneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i gymalau 30 i 40. Bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys os yw'r rheoliad yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

[17] Y Memorandwm, paragraffau 20 a 65
[18] Y Memorandwm, paragraff 65
[19] Y Memorandwm, paragraff 21

**19.** Yn y Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y newidiadau a wneir gan gymalau 30 i 38 a 41:

> *"… ymhlith pethau eraill, yn egluro a symleiddio'r gyfraith, darparu ar gyfer mecanweithiau i adennill costau er mwyn i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y broses allu adennill eu costau, a sicrhau cae chwarae gwastad i sicrhau nad yw defnyddwyr y system yng Nghymru o dan anfantais. Mae hyn oll yn sicrhau bod prosiectau sy'n dal i fod o dan y trothwy newydd a bennwyd yn Neddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn cael eu cydsyniad trwy fframwaith mwy modern.*
>
> *Er fy mod yn cefnogi'r ddarpariaeth i roi trwyddedau morol o dan gymal 38, rwy'n ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU na fydd canlyniadau anfwriadol yn rhanbarth y môr mawr."*[20]

**20.** O ran cymal 42 (Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr), yn y Memorandwm mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi:

> *"Mae cymal 42 yn diwygio paragraffau 7 a 9, yn ychwanegu paragraff newydd yn Atodlen 3 ac yn diwygio adran 54 o Ddeddf Harbyrau 1964. Byddai'r newidiadau'n dileu'r darpariaethau presennol ym mharagraff 7(1)(c) yn Atodlen 3 o'r Ddeddf Harbyrau. Ni fyddai Gweinidogion Cymru'n nodi ffioedd mwyach mewn canllawiau cyhoeddedig fel y gwneir ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddai Gweinidogion Cymru'n cael pŵer i wneud rheoliadau ynghylch ffioedd ymgeisio am Orchymyn Adolygu Harbyrau y bydd yr ymgeisydd yn eu talu."*[21]

**21.** Ym mharagraff 69 o'r Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ychwanegu:

> *"Mae'r cynigion yn ein barn ni yn dderbyniol gan y byddent yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rhestrau ffioedd hyblyg a chymesur ar gyfer ceisiadau am orchymyn harbyrau. Agwedd bwysig yw bod y darpariaethau cychwyn yn y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadw eu pwerau presennol i godi ffioedd o dan Ddeddf Harbyrau 1964 nes y gwneir rheoliadau ffioedd newydd."*

**22.** Yn olaf, mewn perthynas â chymalau 83 i 87 ac 89 i 92 (Pŵer Prynu Gorfodol), yn y Memorandwm mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod y cymalau hyn "yn

[20] Y Memorandwm, paragraffau 67 a 68
[21] Y Memorandwm, paragraff 35

effeithio ar Weinidogion Cymru yn rhinwedd eu swyddogaeth fel awdurdod cadarnhau ac fel awdurdod caffael ac felly ystyrir eu bod yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru".[22]

**23.** Mae cymal 89 yn cynnwys pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (o ran Lloegr) a Gweinidogion Cymru (o ran Cymru) i ddiwygio'r rhestr o hysbysiadau a gorchmynion perthnasol drwy reoliadau (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol).

**24.** Ym mharagraff 70 o'r Memorandwm mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod y cymalau hyn yn cael eu hystyried "yn dderbyniol i helpu i gyflymu'r broses o ddarparu tai fforddiadwy, seilwaith a datblygu er lles y cyhoedd".

**25.** Ym mharagraff 6 o'r Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi:

> *"Mae swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod datblygiad y Bil. Bydd y cyswllt hwn yn parhau ar lefel swyddogion a Gweinidogion yn ôl y gofyn."*

**26.** O ran goblygiadau ariannol, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn y Memorandwm:

> *"Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnal asesiad ariannol o'r Bil eto a chaiff ei gyhoeddi yn ystod taith y Bil trwy Senedd y DU."*[23]

**27.** Dyma gasgliad Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn, fel y cawsant eu drafftio pan gafodd ei gyflwyno, yn y Bil DU hwn. Byddant yn helpu i hwyluso a symleiddio'r prosesau sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith a datblygu, gan gynnwys tai, yng Nghymru.*
>
> *Er ein bod yn gyffredinol gefnogol i'r darpariaethau hyn, rwyf am drafod ymhellach â Llywodraeth y DU ar y darpariaethau canlynol cyn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad iddynt:*
>
> *• Cymal 24 (Defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer trydan adnewyddadwy);*

[22] Y Memorandwm, paragraff 39
[23] Y Memorandwm, paragraff 71

· *Cymal 28 (Gweithdrefn ar gyfer gorchmynion a chynlluniau penodol); a*

· *Chymal 38 (Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol).*

*Byddwn yn parhau i drafod y cymalau hyn â Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn cael canlyniad cadarnhaol."*[24]

**28.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn y Memorandwm y bydd hi'n diweddaru'r Senedd "fel y bo'n briodol unwaith y bydd trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU".[25]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**29.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 6 Mai 2025.[26]

**30.** Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 15 Mai 2025[27]. Byddwn yn ystyried ac yn adrodd ar Femorandwm Rhif 2 maes o law.

**31.** Gwnaethom drafod a chytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 19 Mai 2025.[28]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**32.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y'u nodir yn y Memorandwm.

**33.** Rydym hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU ar gydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

[24] Y Memorandwm, paragraffau 72 i 74
[25] Y Memorandwm, paragraff 75
[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Mai 2025
[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith
[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Mai 2025

**34.** Fodd bynnag, rydym yn credu hefyd bod cymalau 83 i 87 ac 89 i 92 o'r Bil yn cael effaith ar Weinidogion Cymru yn rhinwedd eu swyddogaeth fel awdurdod cadarnhau ac fel awdurdod caffael.

**Casgliad 2.** Rydym o'r farn bod angen hysbysu’r Senedd ynglŷn â chymalau 83 i 87 ac 89 i 92 o dan Reol Sefydlog 30.1, gan fod y darpariaethau hyn yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

## Materion sy'n parhau i fod yn destun pryder

**35.** Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud ym mharagraff 6 o'r Memorandwm bod swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod datblygiad y Bil. Nid yw'n glir i ni beth mae'r datganiad hwn yn ei olygu o safbwynt rôl Llywodraeth Cymru wrth drafod effaith y Bil ar faterion datganoledig gyda swyddogion Llywodraeth y DU.

**36.** Nodwn fod gan Ysgrifennydd y Cabinet bryderon na fydd cymal 24 (defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy) yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru. Rydym yn nodi hefyd, o ran cymal 38 (cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol), bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn am "sicrwydd gan Lywodraeth y DU na fydd canlyniadau anfwriadol yn rhanbarth y môr mawr".

**37.** Yn ogystal, rydym yn cydnabod datganiad Ysgrifennydd y Cabinet bod cymal 28 (gweithdrefn ar gyfer gorchmynion a chynlluniau penodol) "trwy amryfusedd yn cyfeirio at Gymru", a hynny oherwydd diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf 1980 gan y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru). Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn gobeithio y gellir “gwella geiriad y cymal hwn, neu ei esbonio, i'w gwneud yn glir ei fod ond yn berthnasol i Loegr".

**38.** O ystyried y materion hyn sy'n parhau i beri pryder i Ysgrifennydd y Cabinet, credwn fod angen rhoi eglurder i'r Senedd ynglŷn â phryd y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o gynigion deddfwriaethol Llywodraeth y DU sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil, a phryd y daeth Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol o'r materion sydd wedi dod i’r amlwg mewn perthynas â chymalau 24, 28 a 38.

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau'r dyddiadau ar gyfer y canlynol:

- pryd y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o gynigion deddfwriaethol Llywodraeth y DU sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil;
- pryd y dechreuodd trafodaethau ar y Bil gyda Llywodraeth y DU;

- pryd y daeth Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol o'r materion sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â chymalau 24, 28 a 38.

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio sut y cafodd y gwaith o ddrafftio'r Bil ei ddylanwadu gan Lywodraeth Cymru.

## Pwerau dirprwyedig

**39.** Nodwn fod y Bil yn cynnwys nifer fawr o bwerau dirprwyedig.

**40.** Rydym ar ddeall bod pwerau dirprwyedig newydd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

- Mae cymal 24 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu na chaiff Cyfoeth Naturiol Cymru arfer ei bwerau o dan y cymal hwn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.
- Mae cymal 25 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i enwi'r cyrff cyhoeddus sy'n cael codi tâl am eu gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â gorchmynion a chynlluniau a wneir mewn perthynas â phrosiectau ffyrdd o dan Ddeddf 1980.
- Mae cymal 30 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynglŷn â pharatoi Gorchmynion TWA1992 drafft.
- Mae cymal 33 yn rhoi pŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chostau ymchwiliadau.
- Mae cymal 36 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i enwi cyrff cyhoeddus y caniateir iddynt godi tâl am y gwasanaethau a ddarperir i gynlluniau o fewn proses ymgeisio TWA.
- Mae cymal 42 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ymwneud â ffioedd ceisio am Orchymyn Diwygio Harbwr sydd i'w talu gan yr ymgeisydd.
- Mae cymal 89 yn darparu pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o hysbysiadau a gorchmynion perthnasol drwy reoliadau.

**41.** Yn ogystal â rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, nodwn fod y Bil hefyd yn dirprwyo pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol eu gweithredu mewn meysydd datganoledig.

**42.** Er enghraifft, nodwn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael pwerau i gyhoeddi canllawiau sy'n effeithio ar faterion datganoledig (cymalau 4(3) i (5)), ac y bydd cymal 34 hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheolau ynglŷn â dyddiadau cau ar gyfer penderfyniadau drwy reoliadau. Rydym yn cydnabod bod cymal 34 hefyd yn rhoi rôl gydsynio i Weinidogion Cymru pe bai'r rheoliadau sy'n gosod rheolau yn gymwys i fater datganoledig yng Nghymru.

**43.** Yn ogystal, nodwn fod cymal 41 o'r Bil yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a all ddiwygio Deddf gan Senedd y DU neu Ddeddf neu Fesur gan Senedd Cymru. Rydym yn cydnabod na chaiff rheoliadau o'r fath ond gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i gymalau 30 i 40, ac y bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys pe bai'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro a chadarnhau ein dealltwriaeth, fel y'i nodir ym mharagraffau 40 i 43 o'n hadroddiad, o union nifer y pwerau yn y Bil sydd wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru, yn ogystal â nifer y pwerau sydd wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig a faint o'r pwerau hyn sydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cael eu defnyddio.

## Rhyngweithio'r Bil â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cydgrynhoi cyfraith gynllunio yng Nghymru

**44.** Yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 Adroddiad Blynyddol 2023-24'[29], nododd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni fod cynnydd yn parhau i gael ei wneud wrth gydgrynhoi'r prif Ddeddfau sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru.

**45.** Ar 4 Chwefror 2025, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor mai bwriad y Llywodraeth yw y bydd y Biliau Cydgrynhoi hyn yn cael eu cyflwyno i'r Senedd ym mis Medi 2025.[30]

**46.** Nid yw'r Memorandwm yn gwneud sylw ar i ba raddau y gallai'r Bil effeithio ar gynigion Llywodraeth Cymru ei hun i gydgrynhoi'r gyfraith gynllunio bresennol fel y mae'n gymwys yng Nghymru.

[29] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026, Adroddiad Blynyddol 2023-2024, Rhagfyr 2024
[30] Llythyr oddi wrth Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 4 Chwefror 2025

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, gadarnhau a oes gan y Bil oblygiadau i gynigion ac amserlen Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi'r gyfraith gynllunio bresennol fel y mae'n gymwys yng Nghymru.